Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.04.2021

## CORONAFEIRWS: Cynllun Benthyciadau Adfer wedi'w lansio

Lansiwyd cynllun benthyciadau newydd a gefnogir gan lywodraeth y DU ar 6 Ebrill 2021 i ddarparu cyllid ychwanegol i'r busnesau hynny sydd ei angen. Bydd y cynllun benthyciadau newydd yn darparu cymorth pellach i ddiogelu busnesau a swyddi a bydd yn cynnwys 80% o warant y llywodraeth a chap cyfradd llog. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3tmpcmS

## BREXIT: Recordiad gweminar masnachu gyda'r UE o dan y rheolau newydd ar gael

Mae Llywodraeth y DU wedi recordio gweminar a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021 sy'n rhoi trosolwg o'r rheolau newydd sydd wedi dod i rym ers i'r DU

adael Undeb Tollau'r UE a'r Farchnad Sengl. I gael rhagor o wybodaeth ac i wylio'r recordiad, ewch i:

https://bit.ly/3smOlwv

# Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF) – Cymorth digidol i fusnesau

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, mae CCIF yma i'ch helpu chi a busnesau eraill Cymru i roi'r digidol wrth galon eich busnes er mwyn sicrhau'r gwerthiant gorau posib. Mae eu rhaglen rhad ac am ddim yn cynnwys gweminarau am ddim a chymorth un-i-un wedi'i deilwra, a luniwyd i'ch helpu i ddefnyddio digidol fel pâr sbâr o ddwylo pan fydd pwysau, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod eich cwsmeriaid yn gwybod ble i ddod o hyd i chi a sut i brynu gennych chi. P'un ai a ydych chi'n bwriadu symud ar-lein, gwneud llwyddiant o'r 'busnes fel arfer' newydd neu gynnal presenoldeb eich brand yn lleol ar gyfer yr amser pan fydd pethau'n mynd yn ôl i normal, cofrestrwch heddiw.

- Cofrestru: cewch fynediad at ein rhaglen lawn o gymorth am ddim
- Gweminarau am ddim: ymunwch â digwyddiadau rhyngweithiol i gael atebion cyflym ac enillion i'r dyfodol
- Cymorth un-i-un: atgyfnerthu eich gwybodaeth yn gamau gweithredu sy'n sicrhau canlyniadau

Cofrestrwch i ddefnyddio digidol i greu incwm, cynyddu adnoddau ac arbed amser, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# Gweminarau am ddim FSB

- Cash for Innovators: Britain's best-kept business secret: Dydd Gwener 16 Ebrill, 11.00am – 12.00pm

- Managing Change and Redundancies: Dydd Mawrth 20 Ebrill, 10.00am – 11.30am
- FSB Question Time: How is Brexit impacting your business?: Dydd Iau 22 Ebrill 5.00pm – 6.00pm
- How to build an authentic brand that people want to follow: Dydd Mawrth 27 Ebrill, 1.00pm – 2.00pm
- Maximise Your Membership: Dydd Iau 29 Ebrill 12.30 – 1.30pm

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:

https://twitter.com/FSB_Wales

## RCS – Lles ar gyfer gweithio: Mis Ymwybyddiaeth Straen

Mae mis Ebrill yn #MisYmwybyddiaethStraen ac wrth i ni addasu i'r 'normal' newydd, ac wrth i fywyd gychwyn prysuro eto, mae'n amser da i gymryd cam yn ôl ac edrych ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Yn ôl arolwg diweddar, mae 34% ohonom yn ofn wynebu'r dyfodol ar ôl Covid, ac mae 65% ohonom wedi teimlo dan fwy o bwysau ers cychwyn y pandemig. Drwy fis Ebrill mae gan RCS weithdai a gweminarau ar-lein i'ch helpu chi reoli straen ar eich cyfer chi eich hun, a'ch tîm.

- 16 Ebrill 2021 – Cynlluniau Gweithredu Llesiant i Gefnogi Iechyd a Llesiant Gweithwyr
- 23 Ebrill 2021 – Meddwl Cadarnhaol ar gyfer y gweithle
- 27 Ebrill 2021 – Y Pwysigrwydd o Hunanofal
- 28 Ebrill 2021 – Cyfathrebu Effeithiol ar gyfer y Gweithle
- 30 Ebrill 2021 – Pwy fydd yn hyrwyddo llesiant yn eich gweithle?

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

# Coronafeirws (COVID-19): Llythyr DVSA at hyfforddwyr gyrru am wersi a phrofion

Anfonwyd llythyrau gan Brif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA), ynghylch coronafeirws (COVID-19) ac ailgychwyn gwersi gyrru a phrofion gyrru, ar 7 Ebrill 2021 at bob hyfforddwr gyrru cymeradwy (ADIs). I unrhyw hyfforddwr sydd heb dderbyn llythyr, ewch i:

https://bit.ly/3mNO4RY

# Cronfa gwerth £20 miliwn ar gyfer gweithgynhyrchu gwyddorau bywyd ar agor

Gall cwmnïau gwyddorau bywyd bellach wneud cais i'r gronfa newydd gwerth £20 miliwn i gefnogi'r gwaith o weithgynhyrchu meddyginiaethau, diagnosteg a MedTech yn y DU. Bydd y gronfa'n rhoi hwb i gynnig y DU ym maes gweithgynhyrchu gwyddorau bywyd gan greu cyfleoedd economaidd ledled y wlad. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3gexkSO

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru